Ail agor yr Hen Ysgol

Fe fydd Nos Wener Hydref 31, 1980, yn ddyddiad i'w gofio am hir amser yn hanes Penrhyn-coch a'r Cylch. Gwireddwyd breuddwyd y Cyngor Eglwysig a hefyd aelodau Eglwys Sant Ioan wrth weld yr Hen Ysgol yn cael ei hail-agor ar ôl misoedd o adnewyddu yn costio £10,000. Ac rwy'n siŵr fe fydd gan genedlaethau o gyn-ddisgyblion yr ysgol (a sefydlwyd yn 1862) atgofion melys o'r dyddiau cynnar pan oedd yn ganolfan i weith-gareddau diwylliadol a chymdeith-asol yn y pentref. Ac un o'r cyn-ddisgyblion hynny, Mr Herbert Ellis, Lerry View, Tal-y-bont, a gafodd y fraint o ail-agor yr Ysgol yn swyddogol nos Wener. Gwnaeth yn dawel ond yn effeithiol, ac yr ydym yn gwerthfawrogi ei rodd sylweddol at Gronfa'r Adnewyddu Yn ei araith cyfeiriodd Mr Ellis at ei ddyddiau cynnar yn yr Ysgol, dylanwad Miss Harper ar y gen-edlaeth honno, ac hefyd am gyfraniad holl weithgareddau'r Ysgol ar y gymdogaeth yn gyff-redinol. Paratowyd Te Dynion (Bachelor's Tea) ar gyfer yr achlysur ac fe gafodd pawb oedd yn bresennol ddigon i'w fwyta. Ein diolch gwresocaf i bawb am eu rhoddion o arian a lluniaeth i'r noson. Da oedd gweld yr adeilad ar 'ei newydd wedd' a phawb yn mwynhau eu hunain. Cyn gorffen y noson cafwyd canlyniad y "Prize Draw", ac yr ydym yn ddyledus i Miss Agnes Morgan, Court Villa, Penrhyn-coch, am ei gwaith diflino yn gwneud y rhan yma mor lwydd-iannus. Nid gwaith bach yw menter fel yma i sicrhau gwobrau ac i ddosbarthu'r tocynnau. Fe erys y garreg filltir yma yn hir yn hanes Penrhyn-coch a'r Cylch, ac hyderwn y bydd yr Hen Ysgol unwaith eto yn ganolfan i feithrin ac i hybu diwylliant y fro.